

## Y SYNIAD: Ffynonellau shari'a

Cyfraith Dduw yw shari'a yn bennaf oll. Mae'n seiliedig ar y Qur'an, hadith a sunna fel y prif ffynonellau, a rhesymu, consensws a chydweddiad fel ffynonellau eilaidd. Caiff Shari'a ei ffurfio drwy gymhwyso'r ffynonellau hyn a'r egwyddorion sydd ynddyn nhw i bob agwedd ar fywyd dynol. Mae gan gyfraith Dduw oruchafiaeth ac awdurdod diamser oherwydd ei sail yw gair Duw ac mae bywyd Muhammad yn ei henghreffftio. Felly mae'n Gyfraith Sanctaidd, sy'n arwain at gyfiawnder. Mae'n arwain at y llwybr cul ac mae'r ddynoliaeth yn cael ei gwobrwyo am ddilyn ewyllys Allah. Mae Shari'a yn cwmpasu'r sanctaidd a'r seciwlar. Fel cyfraith Dduw mae'n atgoffa pobl fod Duw yn hollalluog ac yn hollwybodus. Rhaid ufuddhau i ewyllys Duw.

## Dyfyniadau

- O'r cyfan i gyd, y Qur'an yn unig a all hawlio ei fod yn ddwyfol, a hyd yn oed wedyn, o'i gymharu â'r ddwy elfen arall, cyfraniad bach iawn sydd ganddo i gorff uniongyrchol cyfraith Islamaidd. (Colin Turner)
- Mae bywyd proffwyd yn oleufa i weddill y ddynoliaeth. (Mashuq ibn Ally)
- Dyma'r Llyfr; mae'n gadarn ei arweiniad, yn ddi-os. (Sura 2)
- Yn y pen draw cwmpasodd y gyfraith ddwy set gyffredinol o berthnasoedd, y gyntaf oedd y berthynas ysbrydol rhwng Allah a'r ddynolryw (ibadat) a'r ail, y berthynas normadol rhwng un bod dynol ac un arall (mu'amalat). Roedd pobl yn credu mai ewyllys arweiniol Allah oedd yn rheoli'r ddwy set. (David Waines)

## Cyfeiriadau, Esboniadau Pellach ac Enghreifftiau

- Er enghraifft, mae'r Qur'an yn cyfeirio'r llwybr y mae'r ffynonellau eraill yn eu cymryd ond hefyd mae'n eu galluogi nhw i ymhelaethu ar ewyllys Duw i'r ddynoliaeth ac felly mae'n amlygu pwysigrwydd dwy ffynhonnell shari'a.
- Felly, y ffordd orau o ddeall shari'a yw fel 'ffordd' neu 'lwybr' y mae Allah yn arwain Mwslimiaid ato ac sy'n cynnwys pob agwedd ar fywyd. Mae'r Sura cyntaf yn datgan 'Dangos y ffordd gul i ni' neu gyfieithiad arall 'Arwain ni at y llwybr cul ac ynddo' gan gyfeirio at natur gyfannol Islam.
- Felly, defnyddir Shari'a i gyfeirio at Islam ei hun, crefydd heddwch ac at ymddygiad Mwslim, hynny yw, un sy'n ufuddhau i Allah. Allah yw ffynhonnell popeth yn y greadigaeth. Felly, rhaid mai o Allah y mae gofynion y shari'a yn tarddu. Mae'r shari'a yn ddwyfol ac yn cyfarwyddo ymddygiad sydd wedi'i gyfeirio at Dduw yn ogystal ag at fodau dynol eraill.

Ateb:

Cyfraith Dduw yw shari'a yn bennaf oll. Mae'n seiliedig ar y Qur'an, hadith a sunna fel y prif ffynonellau, a rhesymu, consensws a chydweddiad fel ffynonellau eilaidd. Ond, fel y noda Turner, 'O'r cyfan i gyd, y Qur'an yn unig a all hawlio ei fod yn ddwyfol, a hyd yn oed wedyn, o'i gymharu â'r ddwy elfen arall, cyfraniad bach iawn sydd ganddo i gorff uniongyrchol deddf Islamaidd'. Er enghraifft, mae'r Qur'an yn cyfeirio'r llwybr y mae'r ffynonellau eraill yn eu cymryd ond hefyd mae'n eu galluogi nhw i ymhelaethu ar ewyllys Duw i'r ddynoliaeth ac felly mae'n amlygu pwysigrwydd dwy ffynhonnell shari'a.

Caiff shari'a ei ffurfio drwy gymhwysu'r ffynonellau hyn a'r egwyddorion sydd ynddyn nhw i bob agwedd ar fywyd dynol. Felly, y ffordd orau o ddeall shari'a yw fel 'ffordd' neu 'lwybr' y mae Allah yn arwain Mwslimiaid ato ac sy'n cynnwys pob agwedd ar fywyd. Dywed Sura 2, 'Dyma'r Llyfr; Mae'n gadarn ei arweiniad, yn ddi-os'. Mae'r Sura cyntaf yn datgan 'Dangos y ffordd gul i ni' neu gyfieithiad arall 'Arwain ni at y llwybr cul ac ynddo' gan gyfeirio at natur gyfannol Islam.

Mae gan gyfraith Dduw oruchafiaeth ac awdurdod diamser oherwydd ei sail yw gair Duw ac mae bywyd Muhammad yn ei henghreffftio. Fel mae Mashuq ibn Ally yn ysgrifennu, 'Mae bywyd proffwyd yn oleufa i weddill y ddynoliaeth'.

Felly mae'n Gyfraith Sanctaidd, sy'n arwain at gyfiawnder. Mae'r Qur'an yn arwain at y llwybr cul ac mae'r ddynoliaeth yn cael ei gwobrwyo am ddilyn ewyllys Allah. Mae David Waines yn cadarnhau hyn pan ddywed, 'Yn y pen draw cwmpasodd y gyfraith ddwy set gyffredinol o berthnasoedd, y gyntaf oedd y berthynas ysbrydol rhwng Allah a'r ddynolryw (ibadat) a'r ail, y berthynas normadol rhwng un bod dynol ac un arall (mu'amalat). Roedd pobl yn credu mai ewyllys tywys Allah oedd yn rheoli'r ddwy set'. Felly, defnyddir Shari'a i gyfeirio at Islam ei hun, crefydd heddwch ac at ymddygiad Mwslim, hynny yw, un sy'n ufuddhau i Allah. Allah yw ffynhonnell popeth yn y greadigaeth. Felly, rhaid mai o Allah y mae gofynion y shari'a yn tarddu. Mae'r shari'a yn ddwyfol ac yn cyfarwyddo ymddygiad sydd wedi'i gyfeirio at Dduw yn ogystal ag at fodau dynol eraill.

Mae shari'a yn cwmpasu'r sanctaidd a'r seciwlar. Fel cyfraith Dduw mae'n atgoffa pobl fod Duw yn hollalluog ac yn hollwybodus. Rhaid ufuddhau i ewyllys Duw.

## Y SYNIAD: Gweithio allan beth yw ewyllys Duw

[\*]

Sut mae ewyllys Duw yn cael ei diffinio? Mae'n cael ei hallosod drwy ddyfarniad yr ulama (grŵp o ysgolheigion crefyddol) a muftis (arbenigwyr crefyddol). Dros gyfnod o amser, datblygodd ysgolheigion Mwslimaidd ddau ddull o sefydlu beth dylai Mwslimiaid ei wneud mewn sefyllfaoedd penodol yr oedd angen rhoi sylw iddyn nhw. Y rhain oedd dull ijma (consensws ysgolheigion) a quiyas (dull cydweddu).

[\*]

Mae gan gyngor ulama neu grŵp o muftis (muftiat neu diyanet) rôl gyffredinol cyngorydd i lywodraethau gwladwriaethau Mwslimaidd. Maen nhw'n bwynt cyfeirio ar gyfer materion Mwslimaidd o ran cymhwyso shari'a mewn unrhyw gyd-destun a roddir.

[\*]

Ysgolheigion yw'r rhain sy'n seilio eu barn ar gynseiliau a chymhwyso egwyddorion profedig Mwslimaidd yn unig i weithio allan beth yw cyfraith Fwslimaidd ac i'w rhoi ar waith.

[\*]

Does dim angen cymwysterau ffurfiol ar mufti neu ulama ond mae ysgolheigion eraill yn cydnabod eu hawdurdod yn rhinwedd eu cred, eu cymeriad, eu haeddfedrwydd a'u deallusrwydd.

[\*]

Er efallai nad oes gan mufti neu ulama unrhyw awdurdod swyddogol, cyfreithiol, mae'n gyffredin i muftiat neu ulama ddylanwadu ar lywodraeth. Hefyd mae muftis ac ysgolheigion unigol wedi gwrth-ddweud datganiadau gwladwriaethol sy'n cael eu gweld fel rhai an-Fwslimaidd.

## Dyfyniadau

- Pan fu farw Muhammad, daeth y datguddiad dwyfol i ben; ond, ni ddaeth yr alwad Fwslimaidd i ddilyn cyfraith Dduw i ben. (John Esposito)
- Y Qur'an a'r hadith yw ffynonellau cynradd shari'a, a dydy ffynonellau eilaidd ijma a quiyas fyth yn gallu eu dirymu nhw. Mae hyn oherwydd bod y ddwy ffynhonnell gyntaf yn deillio o Allah a'i negesydd Ef. Mae bodau dynol yn gallu gwneud camsyniadau a dydyn nhw ddim mewn cysylltiad uniongyrchol ag Allah, felly dydyn nhw ddim yn gallu dirymu'r hyn sydd wedi cael ei ddatgelu. (Idris Morar)
- Yn aml canlyniad y broses hon oedd sawl barn gyfreithiol wahanol i'w gilydd. (John Esposito)
- Dros gyfnod, efallai nifer o genedlaethau, cafodd rhai dehongliadau eu derbyn gan fwy a mwy o ysgolheigion, gan oroesi prawf amser, tra diflannodd rhai eraill. O edrych yn ôl ar gonsensws ysgolheigion a oedd wedi esblygu, daethpwyd i'r casgliad fod consensws awdurdodol wedi cael ei gyrraedd ar y mater. Felly roedd consensws yn ffordd o ffrwyno'r amrywiaeth eang o ddehongliadau unigol gan ysgolheigion cyfreithiol. Cyfrannodd at greu corff o gyfreithiau cymharol sefydlog. (John Esposito)

## Cyfeiriadau, Esboniadau Pellach ac Enghreifftiau

- Beth oedd y shari'a yn ei olygu i'r gymuned Fwslimaidd gyntaf? Yn ôl yr Athro John Esposito roedd yn golygu "ufuddhau i ddatguddiad parhaus Duw ac i'w Broffwyd". Cafodd unrhyw broblemau cynnar gyda 'beth wnawn ni?' eu cyfeirio at Muhammad i gael arweiniad a barn.
- Ar y dechrau, roedd y barnwyr, wedi'u goruchwyllo gan y califfiaid, yn tueddu i ddibynnu ar yr arferion Arabaidd ar y pryd, ar y Qur'an ac ar eu barn bersonol eu hunain. Cyn hir arweiniodd yr arfer hon at anfodlonrwydd.
- Yn ôl yr Athro John Esposito, rhwng 750-900OC ceisiodd dosbarth newydd o ysgolheigion (ulama) ac arbenigwyr crefyddol (muftis) ddarganfod, dehongli a chymhwyso ewyllys Duw i sefyllfaoedd bywyd. Dyma ddelfryd ijthad (ymdrechu'n feddyliol) 'sefydlu delfryd grefyddol, datblygu cyfraith gynhwysfawr sy'n seiliedig ar y Qur'an'.
- Er gwaethaf hyn, cododd anawsterau – roedd yr arferion lleol, a oedd yn cael eu defnyddio wrth ddatblygu'r shari'a, yn Medina yn gysylltiedig ag arferion Muhammad neu'n cyfateb iddyn nhw; yng nghymuned lawer ieuengach Kufa, roedd y dilynwyr yn tueddu i ddibynnu ar farn barnwyr a'u deddfau lleol eu hunain yn unig.